# Pod Profi
# IECHYD A GOFAL

**Mae'r sector iechyd a gofal yn un sy'n datblygu'n gyflym o ran gofal cleifion. Gyda dros 350 o yrfaoedd, mae yna swydd sy'n addas at bawb dim ots pa sgiliau, profiadau neu gymhwysterau. Mae swyddi yn amrywio o fferyllwyr, parafeddygon, gynacolegwyr i peirianwyr clinigol, radiograffwyr a bydwragedd.**

## Ble mae swyddi'n cael eu hysbysebu?

Gellir dod o hyd i swyddi mewn amryw o adnoddau megis sectorau iechyd cyhoeddus fel y GIG yng Nghymru, ac hefyd Academi Gofal Cyngor Sir Gâr . Mae ennill gradd neu gymhwyster wrth ddilyn cwrs prentisiaeth iechyd yn gallu arwain at swyddi yn dy fwrdd iechyd leol hefyd.

## Cyflog

Gyda swyddi yn y sector iechyd, mae pob proffesiwn yn amrywio o ran cyflog. I ddechrau swydd fel gofalwr gellir cyflog ddechrau o tua £20,000 ond fel arbenigwr meddygol gellir ennill o gwmpas £80,000.

## Sgiliau a Chymwysterau

I fod yn weithiwr cryf yn y sector iechyd rhaid cael sgiliau mewn:

Cyfathrebu
Arsylwadol
Cydwybodol
Gofalgar
Amyneddgar
Hyblygrwydd
Ymrwymiad

## Oriau

Mae oriau yn y sector yma yn amrywio'n enfawr, gyda patrymau gwaith gwahanol ar gyfer bob math o swydd ond fel arfer mae disgwyl gweithio dros nos hefyd yn y maes iechyd a gofal.

## Cyfleoedd yn Sir Gâr

Mae yna amryw o lwybrau gyrfa rwyt yn medru eu dilyn yn y sector iechyd, gan gynnwys profiad gwaith, prentisiaethau a chyrsiau prifysgol. Mi fydd galw yn y dyfodol yn Sir Gâr yn uchel o gymharu a swyddi eraill gyda pob swydd i'w talu yn deg. Mae'r sector o hyd yn datblygu felly mi fydd hyn yn darparu gyrfaoedd gwobrwyol a boddhaol. Ymunwch â'r Academi Gofal (llyw.cymru)

Academi Brentisiaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (gig.cymru)

Menter Gorllewin Sir Gâr
Profi
Cronfa Gymunedol Community Fund
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government